# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2017

Amser: 08.30 - 08.37

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Andrew RT Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Paul Davies. Roedd Andrew R T Davies yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn gwneud datganiad am Ddyfarniad y Goruchaf Lys ar Erthygl 50.

Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad:"Diogelu Dyfodol Cymru": Pontio o’r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop.

Cafodd y datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel ei ohirio tan 7 Chwefror.

Cafodd y ddadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2015-16, gan gynnwys Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2016, ei thynnu’n ôl.

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelid y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen

**Dydd Mercher 15 Chwefror 2017 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (60 munud).
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Rhaglen waith weithdrefnol

### 4.1 Adolygiad o'r Trefniadau Ynghylch Deisebau Cyhoeddus

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn cadarnhau eu bod yn fodlon â'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog ac i dreialu trefn newydd ar gyfer ystyried cynnal dadl ar ddeisebau sydd wedi cael 5,000 o lofnodion yn y Cyfarfod Llawn.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd ag awgrym y Pwyllgor Deisebau i gyflwyno'r newidiadau ar 8 Mawrth.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am adroddiad drafft ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn iddynt eu hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.